## CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 6ed o Fawrth 2024 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Iori Saer (Cadeirydd), Dorian Lewis, Sarah Pask, Christopher Smoothy, Huw James, Geraint Evans a Wyn Evans

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd o Ionawr 2024, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Cynghorydd Huw James - eitem 10

**4: MATERION YN CODI:**

Roedd y Cynghorydd Christopher Smoothy wedi bod yn diweddaru pawb gyda'r datblygiadau ar yr offer chwarae newydd yn y parc. Nid oedd y gwaith wedi ei gwblhau hyd yn hyn oherwydd y tywydd.
Roedd y tyllau niferus ar yr heolydd wedi cael eu adrodd i'r Cygor Sir.
Roedd y Cyrsiau Hyfforddiant wedi eu cylchredeg i'r Cynghorwyr fel a gytunwyd eisioes.

**5: DIWEDDARIAD AROLWG CYMUNEDOL**

Roedd y clerc wedi cael copi o'r holiadur gwreiddiol ac fe drafodwyd y cynwys. Trafodwyd sut i ddosbarthu'r holiadur ac yn dilyn trafodaeth penderfynwyd rhoi cynllun yn ei le erbyn y cyfarfod nesaf.

**6: RHODDION**

Trafodwyd y ceisiaudau am gymorth ariannol ond oherwydd y sefyllfa ariannol, a chymryd mewn i ystyrieath cost y parc, cytunwyd i beidio a chyfrannu at unrhyw cais.

**7: ARCHWILYDD MEWNOL**
Trafodwyd swydd yr archwilydd mewnol a chytunwyd I dderbyn Rosemarie Davies am y flwyddyn ariannol nesaf.

**8: CINIO BLYNYDDOL**
Trafodwyd argymhellion o ddyddiadau a lleoliadau. Byddai'r clerc yn gwirio argaeledd ac ymateb i'r Cynghorwyr.

**9: BLAENLLAIN**
Darllenwyd ebost dyddiedig 4ydd o Ionawr a llythyr wedi cael ei roi trwy law ar y 7fed o Ionawr wedi dod wrth Ms Agoust parthed newid cwrs y llwybr cyhoeddus drwy Blaenllain. Roedd y clerc wedi danfon derbyned am y llythyron. Roedd y Cyngor Sir wedi wedi cyhoeddu argymhelliad ar yr 28ain o Ionawr am y gwyriad. Ni nodwyd unrhyw wrthwynebiad.

**10: RHENT**
Gadawodd y Cynghorydd Huw James y cyfarfod tra fod y mater yn cael ei drafod.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd yn unfrydol i gadw'r rhent ar £50 yr erw. Byddai rhent tir Maengwyn Hir yn cynnyddu i £35 ac y tir yn Blaenllain yn aros yn £10 y flwyddyn.

**11: GOHEBIAETH**
**Trafodwyd peth gohebiaeth yn eitem 6 & 9**

**1-** Roedd Cais wedi do am enwebiadau I Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Ysgolion Beca a Bro Brynach. Cynigwyd y Cynghorydd Smoothy. Byddai'r clerc yn hysbysu'r ffederasiwn.
**2-** Cafodd cais gan Rebecca Pugh ei ail-gymeradwyo , yn dilyn cymeradwyo blaenorol, i osod fainc ym Mharc Blaenwaun er côf am y diweddar Robert Pugh. Cytunwyd, fel yn flaenorol, i roi £100 tuag at y gost.
**3-** Ebost wrth Simon Garrett parthed cais cynllunio – i'w drafod dan pwynt 15.
**4-** Trafodwyd cais gan Richard Jackson i brynu darn o dir a penderfynwyd nad oedd yn bosib.

**12: DERBYNIADAU:**

**13: BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymeu – Cost dŵr y Cae Chwarae | £12.52 |
| SSE SWalec – Trydan i'r neuadd | £130.92 |
| CSC – Ad-newyddu bylibiau (i'w dalu dros 7 mlynedd) | £333.60 |
| Archwilwyr Cymru – ffi 2020/21 | £458.00 |
| Liza Jones – Cyflog clerc Ionawr, Chwefror | £560.00 |

**14: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £35,312.35 |
| Cyfrif Trysorydd | £ 5,175.00 |
| **Cyfanswm o** | **£40,487.35** |

**15: CYNLLUNIO:**
**PL/07159** – Mast ac offer cyfarthrebu @ tir yn Rotetrack Engineering, Gilfach, Cwmbach, SA34 0DN. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad.

**PL/07196** – Cais i droi ysbudor deulawr i anedd 2 ystafell wely @ Tir yn Fron Isaf, Cwmbach, SA34 0DR. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad.
**PL/07330 a PL/07331** – Newid defnydd Capel i ddeilliad preswyl @ Capel y Graig, Cwmbach, SA34 0DR. Yn dilyn trafodaeth ac ynghyd ac ebost w adderbyniwyd wrth Simon Garrett, ail-cadarnhwyd gwrthwynebiad gwreiddiol y Cynghorwyr i'r cais oherwydd carthffosiaeth, parcio a preifatrwydd. Byddai'r clerc yn nosi eu pryderon i'r Adran Gynllunio.

## 16: Unrhyw fater arall:

Roedd y Clwb Pel droes sydd yn chwarea ar gaeau Blaewaun wedi cynnig cyflewni a gosod cerrig glân ger y fynedfa gan ei fod yn fwdlyd iawn. Nodwyd diolch tuag at y clwb.
Byddai'r clerc yn gwirio a oedd angen caniatad cynllunio ar gyfer creu maes parcio yn y caeau.

Codwyd pryder am y tyllau niferus ar yr heolydd rhwng Passby a Maengwyn hir ac ymlaen tuag at Pantyblaidd, hefyd o'r Capel i Fferm Bwmper.

**Cynhelir y cyfarfod BLYNYDDOL nesaf nos Fercher y 1af o Fai 2024 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**